



**COVID-19 – Y Sefyllfa Dros Dro
ar gyfer Rheoli
Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant**

**BWRDD DIOGELU
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

30^{ain} Mawrth 2020

Diben y Ddogfen Hon

Paratowyd y papur cyfarwyddo hwn i gynorthwyo staff ledled y rhanbarth wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a theuluoedd yn ystod pandemig y COVID-19. Y disgwyl yw y bydd tarfu ar gyflenwi gwasanaethau arferol am amryw fisoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n hanfodol diogelu a chynnal plant sydd mewn perygl o gamdriniaeth. Felly, o 30^{ain} Mawrth 2020 ymlaen, bydd y canlynol yn bodoli hyd nes clywir yn wahanol:

- Bydd Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant yn aros yn hanfodol i fusnes a byddant yn dal i gael eu cynnal, er y bydd hynny o bell yng Ngheredigion, Sir Benfro a Phowys. *Eithriad; bydd Sir Gâr yn cadw cynadledda wyneb yn wyneb ar gyfer teuluoedd, gweithwyr cymdeithasol a chadeiryddion cynadleddau*
- Bydd Cynadleddau Amddiffyn Plant Adolygol yn llai tyngedfennol ond byddant yn dal i gael eu cynnal, er y bydd hynny o bell NEU yn cael eu cynnal gan Gadeirydd y gynhadledd fel archwiliad bwrdd gwaith.

Tra'i bod yn bwysig bod cynadleddau amddiffyn plant yn parhau, bydd angen addasu sut gânt eu cynnal ar sail newidiadau sydd i'w disgwyl yng ngallu'r gwasanaeth, iechyd plant a theuluoedd ac effaith hunan-ynysu. Yn ystod y cyfnod hwn, dylai gweithwyr proffesiynol wneud pob ymdrech i ymgysylltu â phlant a theuluoedd a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Bydd y sefyllfa mewn cysylltiad â chynadleddau amddiffyn plant yn dal i gael ei hadolygu'n gyson a chyfleu unrhyw newidiadau trwy Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ICPC)

Bydd ICPC yn dal i gael eu cynnal o fewn yr amserlenni. Bydd pob Awdurdod Lleol yn pennu a chyfathrebu proses ar gyfer cynnal y gynhadledd o bell (gwelwch yr atodiadau). Bydd hyn yn amrywio yn ôl yr adnoddau sydd ar gael ac fe allant gynnwys defnyddio e-bost, Skype, ffôn a llwyfannau sgwrsio grwpiau eraill.

Bydd cynadleddau'n dal i ofyn adroddiadau asiantaethau 2 ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y gynhadledd, a dylid rhannu'r adroddiadau hyn i gyd gyda'r teulu 24 awr cyn y gynhadledd. Bydd angen i asiantaethau ddefnyddio dulliau pell i rannu'r adroddiadau.

Fe allai'r trafodaethau cyn y gynhadledd gyda phlant ac aelodau o'r teulu ddigwydd trwy alwad ffôn neu Skype a gellid e-bostio neu bostio'r adroddiad i'r teulu. Dylid gwarchod holl adroddiadau sy'n cael eu hanfon o bell trwy gyfrinair neu amgryptio.

Rhaid darbwyllo'r Cadeirydd bod gwybodaeth ddigonol yn debygol o fod ar gael i sicrhau bod modd ffurfio barn gytbwys ynghylch perygl niwed parhaus e.e. yn achos babanod heb eu geni, mae'n hanfodol bod gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd yn gallu cyfrannu.

Cynadleddau Amddiffyn Plant Adolygol (RCPC)

Bydd RCPC yn dal i gael ei gynnal o fewn amserlenni. Bydd pob Awdurdod Lleol yn pennu a chyfathrebu proses ar gyfer cynnal y gynhadledd o bell NEU archwiliad bwrdd gwaith i'w wneud gan Gadeirydd y gynhadledd (gwelwch yr atodiadau).

Bydd cynadleddau neu archwiliadau'n dal i ofyn adroddiadau asiantaethau 2 ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y gynhadledd / archwiliad, a dylid rhannu'r adroddiadau hyn i gyd gyda'r teulu 24 awr cyn dyddiad y gynhadledd / archwiliad. Bydd angen i asiantaethau ddefnyddio dulliau pell i wneud hyn. Dylai asiantaethau gynnwys eu barn ar gofrestru a'u rhesymau yn eu hadroddiad.

Fe all y trafodaethau cyn y gynhadledd gyda phlant ac aelodau o'r teulu ddigwydd trwy alwad ffôn, ac mae modd e-bostio neu bostio'r adroddiad i'r teulu. Dylid gwarchod holl adroddiadau sy'n cael eu hanfon o bell trwy gyfrinair neu amgryptio.

Rhaid darbwyllo'r Cadeirydd bod digon o wybodaeth ar gael i sicrhau ffurfio barn gytbwys ynghylch perygl niwed parhaus a, thrwy ddefnyddio'r adroddiadau a/neu drafodaethau, bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch cofrestru pellach ar sail argymhellion yr asiantaethau.

Yna bydd Cadeirydd y gynhadledd yn cyfleu'r penderfyniad hwn i'r teuluoedd a'r asiantaethau partner.

Ffurio Cworwm

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) yn gofyn bod o leiaf dair asiantaeth neu garfanau ymarferwyr sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r plentyn yn bresennol er mwyn i'r gynhadledd fynd rhagddi. Fe all dwy asiantaeth fod yn ddigonol dan rai amgylchiadau yn ôl doethineb y Cadeirydd. Rhaid darbwyllo'r Cadeirydd y cafwyd cyfraniad yr asiantaethau allweddol. Os yw'r Cadeirydd o'r farn bod y partneriaid priodol wedi rhannu digon o wybodaeth e.e. o adroddiadau cynhadledd a chysylltiad diweddar â'r Cadeirydd, fe all y Cadeirydd ddewis cynnull y gynhadledd.

Amserlenni

Mae modd oedi'r gynhadledd dan amgylchiadau eithriadol e.e. os yw'r plentyn ac aelodau o'r teulu'n wael ac, felly, yn methu cymryd rhan. Rhaid i oedi cyn dod i gynhadledd beidio ag atal rhag cymryd unrhyw gamau di-oed i ddiogelu'r plentyn. Os bydd oedi'n digwydd, rhaid darbwyllo'r Cadeirydd y diogelwyd y plentyn. Dan y fath amgylchiadau, rhaid cofnodi'r drafodaeth hon ar gofnod y plentyn. Ni ddylai'r oedi hwn fod yn fwy nag 1 wythnos. Os oes amgylchiadau'n codi a allai oedi'r gynhadledd ymhellach, dylid canfod a rhannu dymuniadau'r plentyn a'r teulu gyda'r Cadeirydd a dylai'r gynhadledd fynd rhagddi.

Gwybodaeth Goll

Os yw'r Cadeirydd yn teimlo nad yw'r holl wybodaeth ofynnol yn bodoli, dylai fynegi barn broffesiynol, o dderbyn y wybodaeth sydd ar gael, ar faint y perygl i'r plant. Fe all benderfynu

parhau gyda'r gynhadledd, ond cydnabod y wybodaeth goll. Os gaiff plant eu cofrestru, dylid trefnu RCPC cyn pen 14 diwrnod i ystyried y wybodaeth goll.

Cofnodi cynadleddau: Bydd cofnod o'r gynhadledd yn cael ei gadw, a bydd y cofnodion yn manylu'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddod i benderfyniad y gynhadledd.

Atodiad 1 – Sir Gâr

Cynhadledd ICPC

Cyn y gynhadledd:

- Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon trwy e-bost gyda dyddiad ac amser cynnal y gynhadledd.
- Adroddiadau asiantaethau i'w cyflwyno i dîm cymorth y gynhadledd 48 awr cyn y gynhadledd.
- Asiantaethau i rannu eu hadroddiadau gyda'r teulu dros y ffôn 24 awr cyn y gynhadledd.
- Ar ddiwrnod y gynhadledd a lle bo modd, bydd y rhieni'n cael gwahoddiad i'r swyddfa berthnasol i gyfarfod Cadeirydd y gynhadledd a gweithiwr cymdeithasol i gymryd rhan yn y gynhadledd gydag asiantaethau eraill a fydd ar gael trwy Skype.
- Fel arall, pan nad oes modd i'r rhieni gyfarfod yn y swyddfeydd neu drwy Skype, bydd Cadeirydd y gynhadledd yn cysylltu â'r teulu i sicrhau eu bod wedi derbyn yr holl adroddiadau, gofyn am eu barn / ymatebion, a darllen allan unrhyw adroddiadau nad anfonwyd atynt (adroddiadau meddygon teulu a'r Heddlu fel arfer). Bydd yn gofyn am farn y teulu ar gofrestru. Bydd y Cadeirydd yn rhannu gyda phartneriaid asiantaethau yn y gynhadledd trwy Skype.

Y Gynhadledd

- Mae disgwyl i Bartneriaid Asiantaethau fod ar gael ar Skype ar amser a dyddiad y gynhadledd.
- bydd tîm cymorth y gynhadledd yn e-bostio holl adroddiadau i'r partneriaid asiantaethau 30 munud cyn dechrau'r gynhadledd. Bydd partneriaid yn cael 30 munud i ddarllen yr adroddiadau.
- Ar ôl 30 munud, bydd disgwyl i bartneriaid asiantaethau gymryd rhan yng nghyfarfod y gynhadledd trwy Skype.
- Yn dilyn dadansoddiad SoS yn y gynhadledd, bydd y Cadeirydd wedyn yn adolygu'r ymatebion ac yn gofyn am benderfyniad yr asiantaethau ar gofrestru a'r rhesymau. Bydd ymgynghori â'r teulu hefyd i gael barn.
- Os nad yw'r teulu'n gallu mynychu'r gynhadledd neu ymuno trwy Skype, bydd y Cadeirydd yn ffonio'r teulu i esbonio penderfyniad y cyfarfod. Bydd y gweithiwr

cymdeithasol yn dilyn hyn yr un diwrnod i hysbysu'r teulu o unrhyw Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth a sut fydd ymweliadau ac ati'n digwydd.

RCPCC – Cynhadledd Adolygu o Bell (Skype / Ffôn)

Cyn y gynhadledd:

- Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon drwy e-bost gyda dyddiad ac amser cynnal y RCPCC.
- Adroddiadau asiantaethau i'w cyflwyno i dîm cymorth y gynhadledd 48 awr cyn y cyfarfod.
- Asiantaethau i rannu eu hadroddiadau gyda'r teulu dros y ffôn 24 awr cyn y gynhadledd (o ddewis).
- Cyn y gynhadledd, bydd y Cadeirydd yn cysylltu â'r teulu drwy Skype / dros y ffôn i sicrhau eu bod wedi derbyn yr holl adroddiadau a darllen allan unrhyw adroddiadau nad anfonwyd atynt (adroddiadau meddygon teulu a'r Heddlu fel arfer).

Y Gynhadledd

- Yn dilyn galwad Skype / ffôn y Cadeirydd i'r teulu cyn y gynhadledd, bydd y Cadeirydd yn parhau'r alwad Skype / ffôn i'r teulu ac yn dechrau'r gynhadledd.
- Mae disgwyl i bartneriaid asiantaethau fod ar gael ar Skype ar amser a dyddiad y gynhadledd.
- Bydd tîm cymorth cynhadledd yn e-bostio'r holl adroddiadau i'r partneriaid asiantaethau 30 munud cyn dechrau'r gynhadledd. Bydd partneriaid yn cael 30 munud i ddarllen yr adroddiadau.
- Ar ôl 30 munud, bydd disgwyl i bartneriaid asiantaethau gymryd rhan yng nghyfarfod y gynhadledd trwy Skype ar yr amser a drefnwyd ar gyfer dechrau'r gynhadledd.
- Yn dilyn dadansoddiad SoS yn y gynhadledd, bydd y Cadeirydd yn adolygu'r ymatebion a gofyn i'r asiantaethau benderfynu ynghylch cofrestru a'r rhesymau. Bydd ymgynghori â'r teulu hefyd.
- Os nad yw'r teulu'n gallu ymuno drwy Skype neu dros y ffôn, bydd y Cadeirydd yn ffonio'r teulu ac yn egluro penderfyniad y cyfarfod. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn dilyn hyn yr un diwrnod i hysbysu'r teulu o unrhyw Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth a sut fydd ymweliadau ac ati'n digwydd.

Atodiad 2 - Ceredigion

ICPC

Cyn y gynhadledd:

- Bydd gweinyddwyr QA yn anfon gwahoddiadau trwy e-bost i asiantaethau a'r teulu gyda dyddiad ac amser y gynhadledd.
- Mae adroddiadau asiantaethau i gael eu cyflwyno i'r tîm gweinyddu QA 48 awr cyn y gynhadledd.
- Bydd gweinyddwyr QA yn cadarnhau gyda phob asiantaeth sut fyddant yn cymryd rhan yn y gynhadledd. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cysylltu â'r teulu i weld sut fyddant hwy'n cymryd rhan.
- Mae'r asiantaethau i rannu eu hadroddiadau gyda'r teulu dros y ffôn (o ddewis) neu drwy e-bost 24 awr cyn y gynhadledd. Os caiff e-bost ei ddefnyddio, rhaid gwarchod yr adroddiad gyda chyfrinair.
- Ar ddiwrnod y gynhadledd, bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn cysylltu â'r teulu i sicrhau eu bod wedi derbyn yr holl adroddiadau, yn gofyn am eu barn / ymatebion a rhannu unrhyw adroddiadau nad anfonwyd atynt. Bydd yn gofyn am farn y teulu ar gofrestru os nad yw'r teulu'n gallu cyfranogi yn y cyfarfod ffôn / Skype.
- Bydd gweinyddwyr QA ar yr alwad / Skype ac yn derbyn yr e-byst, a byddant yn cynhyrchu cofnodion cryno o'r cyfarfod a'r penderfyniad a chamau a gytunwyd yn y cynllun.

Proses y Gynhadledd

- Mae disgwyl i bartneriaid asiantaethau fod ar gael trwy alwad cynadledda neu gyfarfod Skype neu e-bost ar amser a dyddiad y gynhadledd am ryw 1½ awr
- Bydd gweinyddwyr QA yn e-bostio holl adroddiadau i bartneriaid asiantaethau (dan gyfrinair dyddiad y gynhadledd) 24 awr cyn y gynhadledd. Bydd disgwyl i asiantaethau dderbyn y dderbynneg ddarllen fel bod gweinyddwyr QA yn gwybod y cawsant eu derbyn.
- Bydd disgwyl i bartneriaid asiantaethau fynegi eu barn ar gofrestru yn ystod y cyfarfod ffôn / Skype neu eu hanfon drwy e-bost a'u rhesymau dros hyn ar adeg y gynhadledd. Bydd e-byst yn cael eu cadw dan enw'r plentyn ar y ffolder QA a bydd y wybodaeth hon yn y cofnodion.
- Yna bydd y Cadeirydd yn adolygu'r holl ymatebion a wnaed yn yr alwad neu drwy e-bost a bydd yn cadarnhau penderfyniad y gynhadledd mewn e-bost at holl aelodau'r gynhadledd yn union ar ôl y gynhadledd.

- Bydd y Cadeirydd yn ffonio'r teulu ac yn egluro penderfyniad y cyfarfod os nad ydynt wedi gallu cyfranogi yn y cyfarfod ffôn / Skype. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn dilyn hyn yr un diwrnod i drafod y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth gyda'r teulu a sut fydd ymweliadau ac ati'n digwydd.
- Bydd y Cynllun yn cael ei e-bostio gan weinyddwyr QA i Aelodau'r Grŵp Craidd cyn cyfarfod y Grŵp Craidd. Bydd gweinyddwyr QA yn paratoi cofnodion y cyfarfod o fewn yr amserlen ofynnol ac yn eu hanfon trwy e-bost.

RCPC

Cyn y gynhadledd:

- Bydd y gweinyddwyr QA yn anfon gwahoddiadau i asiantaethau a'r teulu trwy e-bost gyda dyddiad ac amser y gynhadledd.
- Mae adroddiadau asiantaethau i gael eu cyflwyno i'r tîm gweinyddu QA 48 awr cyn y gynhadledd
- Bydd gweinyddwyr QA yn cadarnhau gyda phob asiantaeth sut fyddant yn cymryd rhan yn y gynhadledd. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cysylltu â'r teulu i weld sut fyddant hwy'n cymryd rhan.
- Mae asiantaethau i rannu eu hadroddiadau gyda'r teulu dros y ffôn (o ddewis) neu drwy e-bost 24 awr cyn y gynhadledd. Os caiff e-bost ei ddefnyddio rhaid gwarchod yr adroddiad gyda chyfrinair.
- Ar ddiwrnod y gynhadledd, bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn cysylltu â'r teulu i sicrhau eu bod wedi derbyn yr holl adroddiadau, yn gofyn am eu barn / ymatebion a rhannu unrhyw adroddiadau nad anfonwyd atynt. Bydd yn gofyn am farn y teulu ar gofrestru os nad yw'r teulu'n gallu cymryd rhan yn y cyfarfod ffôn / Skype.
- Bydd gweinyddwyr QA ar yr alwad / Skype ac yn derbyn yr e-byst, a byddant yn cynhyrchu cofnodion cryno o'r cyfarfod a phenderfyniad a chamau a gytunwyd yn y cynllun.

Proses y Gynhadledd

- Mae disgwyl i bartneriaid asiantaethau fod ar gael trwy alwad cynadledda neu gyfarfod Skype neu e-bost ar amser a dyddiad y gynhadledd am ryw 1½ awr
- Bydd gweinyddwyr QA yn e-bostio holl adroddiadau i bartneriaid asiantaethau (dan gyfrinair dyddiad y gynhadledd) 24 awr cyn y gynhadledd. Bydd disgwyl i asiantaethau dderbyn y dderbynneb ddarllen fel bod gweinyddwyr QA yn gwybod y cawsant eu derbyn.
- Bydd disgwyl i bartneriaid asiantaethau fynegi eu barn ar gofrestru yn ystod y cyfarfod ffôn / Skype neu eu hanfon drwy e-bost a'u rhesymau dros hyn ar adeg y

gynhadledd. Bydd e-byst yn cael eu cadw dan enw'r plentyn ar y ffolder QA a bydd y wybodaeth hon yn y cofnodion.

- Yna bydd y Cadeirydd yn adolygu'r holl ymatebion a wnaed yn yr alwad neu drwy e-bost a bydd yn cadarnhau penderfyniad y gynhadledd mewn e-bost at holl aelodau'r gynhadledd yn union ar ôl y gynhadledd.
- Bydd y Cadeirydd yn ffonio'r teulu ac yn egluro penderfyniad y cyfarfod os nad ydynt wedi gallu cyfranogi yn y cyfarfod ffôn / Skype. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn dilyn hyn yr un diwrnod i drafod y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth gyda'r teulu a sut fydd ymweliadau ac ati'n digwydd.
- Bydd y Cynllun yn cael ei e-bostio gan weinyddwyr QA i Aelodau'r Grŵp Craidd cyn cyfarfod y Grŵp Craidd. Bydd gweinyddwyr QA yn paratoi cofnodion y cyfarfod o fewn yr amserlen ofynnol ac yn eu hanfon trwy e-bost.

Atodiad 3 – Sir Benfro

Bydd y prosesau canlynol yn cael eu mabwysiadu yn Sir Benfro; bydd ICPC a RCPC yn cael eu cynnal fel gynhadledd bwrdd gwaith rithwir ar unwaith.

ICPC a RCPC – Cynhadledd Bwrdd Gwaith

Cyn y gynhadledd:

- Bydd gwahoddiadau i weithwyr proffesiynol yn cael eu hanfon trwy e-bost gyda dyddiad ac amser i gynhadledd bwrdd gwaith.
- Bydd rhieni'n cael gwahoddiadau ar bapur ac yn cael eu cynghori dros y ffôn gan y Gweithiwr Cymdeithasol.
- Adroddiadau asiantaethau i'w cyflwyno i dîm cymorth y gynhadledd 48 awr cyn y gynhadledd bwrdd gwaith (ar sail Gweithdrefnau Diogelu Cymru).
- Asiantaethau i rannu eu hadroddiadau gyda'r teulu dros y ffôn (o ddewis) neu e-bost 24 awr cyn y gynhadledd bwrdd gwaith (ar sail Gweithdrefnau Diogelu Cymru).
- Un awr cyn yr amser dechrau swyddogol ar ddiwrnod y gynhadledd, bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn cysylltu â'r teulu i sicrhau eu bod wedi derbyn yr holl adroddiadau a gofyn am eu barn / ymatebion. Byddant hefyd yn rhannu unrhyw adroddiadau na dderbyniwyd gan y teulu (fel arfer adroddiadau meddygon teulu a'r Heddlu). Os na fydd y teulu wedi derbyn yr adroddiadau ac yn teimlo nad ydynt wedi cael digon o amser i sicrhau bod aelodau o'r teulu'n ymwybodol o gynnwys yr adroddiad, i dynnu sylw at unrhyw anghywirdebau ac i wneud synnwyr o gynnwys yr adroddiad (Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019), bydd y gynhadledd yn cael ei gohirio. Bydd y Cadeirydd yn gofyn am farn y teulu ar gynnydd gyferbyn â'r cynllun (RCPC) a chofrestru. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu hyn i'w rannu gyda phartneriaid asiantaethau (ffurflen y Cadeirydd i'w llenwi gyda Rhieni).

Cynhadledd Bwrdd Gwaith

- Mae disgwyl i bartneriaid asiantaethau fod ar gael ar e-bost / ffôn ar amser a dyddiad y gynhadledd am ryw 1½ awr
- Bydd tîm cymorth y gynhadledd yn e-bostio'r holl adroddiadau at bartneriaid yr asiantaethau, yn ogystal â chrynodeb o sylwadau'r rhieni ar ddechrau'r amser a glustnodwyd. Bydd partneriaid yn cael awr i ddarllen yr adroddiadau a sylwadau'r rhieni.
- Ar ôl awr bydd disgwyl i bartneriaid asiantaethau e-bost eu dalennau dadansoddi at y Cadeirydd (Y pethau sy'n gweithio'n dda / Am beth ydym ni'n pryderu / Beth sydd angen i ni weld) a sylwadau ar gofrestru a'u rhesymau dros hyn.
- Yna bydd y Cadeirydd yn adolygu'r ymatebion ac yn cadarnhau'r penderfyniad mewn e-bost; bydd hyn yn cael ei ddilyn gan lythyr penderfyniad
- Bydd y Cadeirydd yn ffonio'r teulu ac yn egluro penderfyniad y cyfarfod. Yna bydd hyn yn cael ei ddilyn yr un diwrnod gan y Gweithiwr Cymdeithasol i hysbysu'r teulu o unrhyw Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth a sut fydd ymweliadau ac ati'n digwydd.
- Bydd y Cadeirydd ar gael drwy Skype / ffôn os bydd unrhyw deulu / partner asiantaeth angen siarad â'r Cadeirydd.

Atodiad 4 – Powys

ICPC a RCPC – cynadleddau rhithwir

- Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon at blant a theuluoedd drwy'r post neu e-bost diogel.
- Bydd gweithwyr proffesiynol yn cael gwahoddiadau mewn dull electronig. Bydd e-byst cyffredinol ar gyfer asiantaethau partner hefyd yn cael gwahoddiad. Bydd yr Uned Ddiogelu'n e-bostio'r agenda, datganiad cydgyfrinachedd a gwybodaeth mewn cysylltiad â gofynion cofrestru a chategorïau o gamdriniaeth ochr yn ochr â'r gwahoddiad i'r gynhadledd.
- Mae gofyn i weithwyr proffesiynol anfon adroddiadau i'r Uned Ddiogelu 2 ddiwrnod gwaith cyn y gynhadledd. Bydd yr Uned Ddiogelu'n e-bostio'r adroddiadau hyn i'r mynychwyr proffesiynol a Chadeirydd y gynhadledd. Ni fydd adroddiadau'r Heddlu'n cael eu rhannu.
- Mae gofyn i weithwyr proffesiynol rannu cynnwys eu hadroddiad gyda phlant a theuluoedd 2 ddiwrnod cyn y gynhadledd.
- Bydd Cadeiryddion yn cysylltu â'r teulu 30 munud cyn i'r gynhadledd ddechrau i drafod proses y gynhadledd ac i ofyn am eu barn ar gofrestru.
- Mae gofyn i weithwyr proffesiynol ymuno â'r gynhadledd rithwir yn brydlon.

- Bydd y gynhadledd yn digwydd yn rithwir. Fe all plant a theuluoedd ymuno trwy Skype naill ai trwy wahoddiad neu gael eu deialu i'r gynhadledd.
- Bydd cofnodion yn cael eu hanfon at weithwyr proffesiynol trwy e-bost a'u postio at rieni neu eu hanfon trwy e-bost diogel os bydd angen.
- Bydd y Cadeirydd ar gael i siarad â'r plentyn ac aelodau o'r teulu ar ôl y gynhadledd rithwir os oes eisiau hyn.